# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **23 Mai 2018.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Penny Matthews | **Adran Etholiadol:** | Llansamlet |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | Cadeirydd y Pwyllgor - Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol / Pwyllgor Trwyddedu Statudol |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cynhelir cymorthfeydd wythnosol ar sail rota gyda chydweithwyr ward.

Rydw i wedi sefydlu a threfnu digwyddiadau mewn parciau lleol, sef Parc Briallu a Pharc Heol Las, ar y cyd â chydweithwyr ward. Rydw i'n cefnogi'r Grŵp Menywod Hŷn yng Ngellifedw ac yn ymweld â'r grŵp, rydw i'n cynnal tudalen Facebook sy'n rhoi'r diweddaraf am ddigwyddiadau a gweithgareddau yn y ward.

Rydw i'n Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd y Trallwn ac Ysgol Gyfun Gellifedw. Rydw i'n gweithio'n agos gydag Ysgol Gynradd y Trallwn ac mae'r plant yn fy adnabod yn dda, sy'n amlwg pan fyddant yn fy ngweld i yn y ward.

Rydw i wedi gweithio ar nifer o achosion personol, o ailgartrefu ceiswyr lloches i helpu i ddod o hyd i lety i bobl hŷn sydd wedi cael eu troi allan o eiddo a rentir yn breifat. Rydw i wedi cefnogi Cyfeillion Parc Briallu, a Chyfeillion Parc Heol Las.

Rhoddais bwysau ar First Bus i ailsefydlu gwasanaeth rhif 33 yn Rhyd-y-felin, sydd wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i bobl hŷn a theuluoedd ifanc. Trwy wneud y bws yn fwy hygyrch, nid oes rhaid iddynt gerdded i lawr i'r briffordd er mwyn cael mynediad at y bws gwasanaeth.

Rydw i wedi cydweithio â'r Tîm Parciau er mwyn sefydlu ardal chwarae yn Rhyd-y-felin, sy'n daith hir ar droed i'r parc agosaf. Y cyfarpar a ddefnyddir yn Rhyd-y-felin yw'r cyfarpar wedi'i adnewyddu o Barc Briallu pan wnaed y newidiadau mawr.

Trefnais y basgedi crog trwy'r ward ac roeddwn i a fy nghydweithwyr wedi talu amdanynt.

Rydw i wedi gweithio ar nifer o ddiwrnodau hwyl i blant, a thros wyliau'r haf trefnais adloniant yn y parciau lleol ar y cyd â chydweithwyr ward. Roedd yr AS lleol wedi cydweithio â ni trwy drefnu pecynnau bwyd i'r holl blant a oedd yn bresennol.

Roeddem hefyd wedi gweithio ar ddosbarthu basgedi Nadolig, a ddarparwyd gan yr AS, i bobl yn y ward. Roeddem wedi gwneud y basgedi a'u darparu gyda chymorth gan 3 aelod ffyddlon o'r ward.

**Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.
Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Sefydlais gynllun Gwarchod y Gymdogaeth o fewn dosbarthau amrywiol y ward, gan gydweithio â'r heddlu lleol. Yn ystod y cyfarfod sefydlwyd cydlynwyr yn y Glais a'r Trallwn, ac maent yn cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth lwyddiannus iawn. Maent hefyd wedi cysylltu â grwpiau Gwarchod y Gymdogaeth cyfagos eraill.

Rydw i'n diweddaru'r dudalen Facebook *Llansamlet Labour News* yn rheolaidd. Rydw i'n rhoi'r diweddaraf am waith stryd sy'n gallu effeithio ar gynlluniau teithio. Rydw i mewn cysylltiad rheolaidd â'r gymuned ynghylch amrywiaeth o broblemau a phryderon.

Eleni, trefnais fod basgedi crog ar hyd y prif ffyrdd a bod planhigion newydd yn cael eu plannu yn y tybiau trwy'r ward.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Mae'n fraint gennyf fod yn Gadeirydd Trwyddedu Dinas a Sir Abertawe ac yn Gadeirydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu.

Trefnais gyfarfod i sefydlu Cyfeillion Parc Briallu ac rydw i'n parhau i'w cefnogi yn ogystal â Pharc Heol Las.

Rwy'n cefnogi Ymddiriedolaeth Gymunedol y Glais ac yn mynd i'w chyfarfodydd.

Rwy'n cynrychioli'r cyngor ar Fwrdd Canolfan Gymunedol y Trallwn.

Rwyf hefyd yn cynrychioli'r cyngor ar Fwrdd Canolfan Gymunedol y Glais sydd newydd gael ei sefydlu.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

Mae fy rôl fel cadeirydd yn amrywiol, gan ymwneud â phob agwedd ar drwyddedu. Roedd hyn yn cynnwys trwyddedu mangreoedd a thacsis, Tai Amlfeddiannaeth (HMO) a masnachu ar y stryd. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, rydw i wedi bod yn bresennol mewn digwyddiadau ar Wella Cludiant Cyhoeddus, wedi cadeirio cyfarfodydd sy'n cyflwyno'r fframwaith newydd ynghylch Cludiant Ysgol, ac wedi cynnal cyfarfodydd â gyrwyr tacsis/cerbydau hacni.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rydw i hefyd wedi cefnogi'r diwrnodau a'r digwyddiadau hwyl yn y Trallwn a Gellifedw. Mae'r digwyddiadau hyn yn ddigwyddiadau cymunedol hyfryd sy'n uno pob rhan o'r gymuned. Rydw i wedi bod y presennol mewn cyfarfodydd ymgynghorol â First Cymru yn rheolaidd. Rwyf hefyd yn cael cyfarfod â Swyddog Trwyddedu'r Heddlu sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fi am ddigwyddiadau ar draws yr awdurdod.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch (Cadeirydd Pwyllgor): £22,100

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 10/03/2019 |